



YSGOL GYMUNED LLANFEHELL COMMUNITY SCHOOL
FFORDD Y MYNYDD
LLANFEHELL
AMLWCH
YNYS MÔN
LL68 OSA



PENNAETH MEWN GOFAL / ACTING HEAD TEACHER: Mrs. Meinir L. Roberts B.Add. (Anrhyd.)

01407 710 512

pennaeth.llanfechell@ynysmon.gov.uk / www.llanfechell.anglesey.sch.uk

'Dysgu trwy brofiad / Learning through experience . .

Cylchlythyr 1 – Medi 2013

Croeso nol i bawb, a gobeithio eich bod wedi mwynhau'r gwyliau. Rydym yn falch o groesawu atom 10 o blant bach newydd i'r dosbarth meithrin ac yn gobeithio y byddent yn hapus yma gyda ni.

Cysylltu gyda'r ysgol.

Hoffwn eich atgoffa ei fod yn bosib i chwi gysylltu gyda'r ysgol drwy lythyr, ffonio, anfon testun neu drwy ebostio'r Pennaeth. Bydd yr ysgol yn anfon gwybodaeth i chi drwy lythyr a thrwy system "Teachers2Parents". Mae'n hanfodol felly eich bod yn hysbysu'r ysgol os ydych yn newid eich rhif ffôn symudol. Gellir hefyd gweld copiau o lythyrau ar safwe'r ysgol. Y cyfeiriad yw www.ysgolllanfechell.org.

Ffrwythau a Ddŵr

Mae croeso i blant ddod â **ffrwythau'n unig** i'r ysgol i'w bwyta'n ystod amser chwarae. Mae gennym hefyd siop ffrwythau'n yr ysgol lle gellid prynu ffrwythau am 20c y diwrnod. Mae yma Ffynnon Ddŵr at ddefnydd y plant. Ni chaniateir i blant ddod â bisgedi na bariau grawnfwyd brechwast i'r ysgol nag unrhyw fath o ddiod heblaw am ddŵr. Mae'r ysgol yn ceisio annog y plant i yfed digon o ddŵr yn ystod y dydd, ac i fwyta'n iach yn unol â chanllawiau Blas Am Oes, a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yng Nghymru.

Cinio Ysgol

Cwmni Caterlink wedi ennill y contract arlwyio i ysgolion Môn. Maent yn gyfrifol am y ddarpariaeth o Fedi 2013. Mae angen sicrhau fod yr ysgol wedi derbyn pob taliad erbyn **9.15 ar fore Gwener fan bellaf**. Gofynnwn i chwi roi'r arian neu'r siec mewn amlen gydag enw'r plentyn arno yn wythnosol. Dylid gwneud sieciau'n daliadwy i Gyngor Ynys Môn. Bydd angen rhoi **wythnos o rybudd** i'r gogyddes os ydych plentyn yn newid o frechdanau i ginio neu o ginio i frechdanau.

Addysg Gorfforol

Bydd angen dillad addas ac esgidiau pwrpasol. Disgwylir i bob plentyn newid ar gyfer pob gwrs Addysg Gorfforol.
Meithrin a Derbyn - Dydd Iau
Blwyddyn 1 – Dydd Mawrth a Dydd Mercher
Blwyddyn 2- Dydd Llun a Dydd Mercher
Blwyddyn 3 a 4 – Dydd Iau a Dydd Gwener
Blwyddyn 5 a 6 – Dydd Mawrth a Dydd Gwener

Allwedd Ysgol Llanfechell 1907

Mae'r ysgol wedi llwyddo i brynu allwedd arian a gyflwynwyd i Arglwyddes Stanley i ddathlu agor yr ysgol ym 1907. Byddwch yn derbyn rhagor o hanes y gorriad yn y dyfodol agos.

Gwirfoddoli yn yr ysgol

Os ydych yn dymuno cynorthwyo gyda'r darllen, garddio, chwaraeon ac ati yn mae croeso i chwi gysylltu gyda'r ysgol. Bydd angen gwiriad CRB ar pob un sy'n gwirfoddoli.